CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

RHONDDA CYNON TAF

COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Democratic Services (01443 424110)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX** ar **DYDD MERCHER, 6ED MAWRTH, 2019** am **5.00 PM.**

AGENDA **Tudalennau**

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol Ymddygiad y Cyngor.

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agenda y mae eu bud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu budc rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'

2. CYHOEDDIADAU

3. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2018 yn rhai cywir.

7 - 20

LLYWODRAETHU AGORED

4. DATGANIADAU

Yn unol â Rheol Dull Gweithredu 2 Cyfarfod Cyngor y Llywodraeth Agored, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet.

5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

a) Cwestiwn gan Ms C. King i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg ddatganiad yn esbonio sut bydd amharu ar addysg plant Ton-teg teirgwaith yn ystod eu taith drwy'r ysgol yn cyd-fynd â pholisi corfforaethol Cyngor RhCT sy'n datgan, "dylai pob plentyn gael y cyfle i fanteisio ar yr addysg orau sydd ar gael?"

b) Cwestiwn gan Ms L. Williams i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C. Leyshon:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifanc ddatganiad ynglŷn â sut mae cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif sy'n cynnwys gwahanu plant Ton-teg oddi wrth eu ffrindiau, eu cyfoedion a'u cymunedau lleol yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Siartr y Cenhedloedd Unedig i Bobl Ifainc?"

c) Cwestiwn gan Mr G. Ward i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg ddatganiad yn dadansoddi'n fanwl yr hyn sy'n cael ei ddyfynnu yng nghynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif ynglŷn â nifer y plant o Don-teg a fydd yn cael eu heffeithio o flwyddyn i flwyddyn gan y newidiadau arfaethedig i ddalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen?"

d) Cwestiwn gan Mr C. Garlick i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Trafnidiaeth ddatganiad ynglŷn â diogelwch y llwybr cerdded presennol rhwng Ton-teg ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen sydd wedi'i bennu'n "ddiogel" yng nghynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif?"

e) Cwestiwn gan Mr J Marshman i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg ddatganiad ynglŷn â pham mae'r awdurdod lleol yn seilio ei ymgynghoriad ar gynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif ar y Cod Ysgol newydd, yn hytrach na golygiad cyntaf y Cod, sef yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylid ei ddefnyddio?"

6. CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

a) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Yeo i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C. Leyshon:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi diweddariad i Aelodau ar gyflwyno cynnig Gofal Plant am Ddim Llywodraeth Cymru?"

b) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Chapman i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn delio â chwynion am sbwriel ar dir preifat?"

c) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:

"A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer cefnogi pobl ifainc i ddod o hyd i waith, yn ychwanegol at brentisiaethau a chynlluniau graddedigion?"

d) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Davies-Jones i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi diweddariad ar gynnydd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ardal Tonyrefail?"

e) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Hooper i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet amlinellu'r rhesymau dros y cynnig arfaethedig i newid dalgylch Ton-teg ar gyfer addysg 11-16 oed?"

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR - ER GWYBODAETH I AELODAU

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

7. PECYNNAU YMDDEOL YN GYNNAR O WIRFODD A DISWYDDO AR GYFER PRIF SWYDDOGION

Trafod adroddiad y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol.

21 - 24

8. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm 9 nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

9. ADOLYGIAD O STRWYTHUR UWCH REOLWYR A SWYDDI RHEOLI CYSYLLTIEDIG Y CYNGOR

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr

25 - 56

10. RHAGLEN GYFALAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.

57 - 76

11. STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen.

77 - 182

12. PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

183 - 194

13. YMDDISWYDDIAD UWCH GRWNER ARDAL CRWNER CANOL DE CYMRU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol.

195 - 198

14. RHYBUDD O GYNNIG

A. Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Webber, J. Harries, L. M. Adams, D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, G. Holmes, G. Hopkins, G. W. Hughes, G. Jones, R. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, A. Roberts, J. Rosser, R. W. Smith, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo.

Mae tua 1 o bob 10 o'r boblogaeth ym Mhrydain yn rhan o gymuned y Lluoedd Arfog. Serch hynny, nododd y cyfrifiad yn 2011 mai ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd gan wleidyddion, elusennau a darparwyr gwasanaeth o'r grŵp yma, sydd yn aml yn cael ei anghofio.

Yma yn Rhondda Cynon Taf, mae gan y Cyngor hanes balch o gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog. Ni yw'r unig Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd wedi derbyn y Wobr Aur gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn am y cymorth rydyn ni'n ei ddarparu'n lleol. Mae'r Cyngor bob amser yn awyddus i wella'r cymorth rydyn ni'n ei ddarparu i filwyr, cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Mae ymgyrch 'Count Them In' y Lleng Brydeinig Frenhinol yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth drwy sicrhau bod Cyfrifiad 2021 yn nodi'r wybodaeth berthnasol am gymuned y Lluoedd Arfog ac yn llywio'r cymorth y mae modd i sefydliadau eu darparu o ran bodloni anghenion yr holl gymuned filwrol.
Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Cefnogi ymgyrch 'Count Them In' y Lleng Brydeinig Frenhinol er mwyn sicrhau bod modd casglu gwybodaeth hanfodol ynglŷn â chymuned arwyddocaol y Lluoedd Arfog yn y Deyrnas Unedig.

- Gofyn i **Ddirprwy Arweinydd** y Cyngor ysgrifennu at Weinidog y Cyfansoddiad i wneud cais am gynnwys cwestiynau perthnasol yng Nghyfrifiad 2021.

***

B. Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Evans, M. A. Norris, L. M.

Adams, H. Boggis, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, M. Fidler Jones, M. Forey, E. George, J. Harries, W. Lewis, S. Morgans, S. Pickering, S. M. Powell, S. Rees, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner a R. Yeo.

Mae Clefyd Niwronau Motor yn glefyd angheuol sy'n datblygu'n gyflym, ac sy'n effeithio ar yr ymennydd a llinyn asgwrn y cefn drwy ymosod ar nerfau sy'n rheoli'r ffordd mae'r corff yn symud. Mae hyn yn golygu bod modd i'r cyflwr beri i ddioddefwyr ei chael hi'n fwyfwy anodd i gyflawni tasgau sylfaenol, gan gynnwys anadlu, yn y pen draw.
Mae tua 5,000 o oedolion o bob cefndir yn cael eu heffeithio gan y clefyd ar unrhyw adeg yn y DU. Ar hyn o bryd, does dim triniaeth i wella Clefyd Niwronau Motor ac, o ganlyniad i hynny, mae hi'n bwysig bod dioddefwyr yn cael eu trin â'r gofal a'r parch maen nhw'n ei haeddu. Nod y Siarter Clefyd Niwronau Motor yw cyflawni hyn drwy sicrhau ansawdd bywyd gwell, urddas a pharch i ddioddefwyr a'u cynhalwyr.

Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:

- Mabwysiadu Siarter Clefyd Niwronau Motor y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor er mwyn helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r rheiny sy'n byw gyda'r clefyd yma yn ein cymuned leol.
- Cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Craffu Materion Iechyd a Lles er mwyn ystyried y goblygiadau ymarferol ymhellach, yn ogystal ag ystyried y ffordd orau i'r Cyngor roi nodau'r Siarter ar waith.

***

15. BUSNES BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

At: Pob Aelod o'r Cyngor